



CEDAR: Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd

Bwletin Chwarterol

Rhagfyr 2023, Rhifyn 5

Mae CEDAR wedi ymrwmo i gefnogi gofal claf-ganolog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy ymchwil a gwerthuso ymyriadau iechyd, technolegau a gwasanaethau'r GIG.

YN Y RHIFYN HWN

Newyddion CEDAR

Uchafbwyntiau diweddar gan y tîm

Uchafbwyntiau'r Prosiect

Darganfyddwch pa brosiectau sydd wedi camu ymlaen yn CEDAR y chwarter hwn

Arddangosfa Ffrwd Gwaith

Dysgwch am Werthusiad - un o'r nifer o feysydd arbenigedd o fewn CEDAR

Sbotolau Staff

Clywch gan Samantha Salway, gweinyddwr CEDAR.

Newyddion CEDAR

- Croeso cynnes iawn i Samantha Salway a Bimbola Wealth, sydd wedi ymuno â'r tîm gweinyddol yma yn CEDAR.
- Mae Michael Beddard a Katherine Woolley, dau Uwch Ymchwilydd yn CEDAR, wedi creu fideos ar gyfer wythnos Gwerth mewn Iechyd yn egluro beth mae CEDAR yn ei wneud. Cliciwch [yma](#) i'w wyllo.
- Mae [treial POLARIS](#) (Pathway Of Low Anterior Resection syndrome relief after Surgery) wedi dechrau recriwtio yng Nghaerdydd. Mae Laura Knight (Uwch Ymchwilydd CEDAR) wedi cychwyn ar yr is-astudiaeth ansoddol trwy gynnal cyfweiliad lled-strwythuredig gyda'r cyfranogwr cyntaf i gael ei gofrestru ar y treial. Mynychodd Laura a chydweithwyr eraill sy'n gweithio ar y treial POLARIS y '[Gweithdy diweddariadau mewn rheoli LARS](#)' ym mis Rhagfyr, a gynhaliwyd gan Mrs Julie Cornish.
- Mynychodd Judith White gwrs paratoi ar gyfer arolygiad MHRA a gynhaliwyd gan Fforwm Y&D y GIG ar gyfer staff BIP CAF. Nod y cwrs oedd darparu cyngor ymarferol i'r rhai sy'n ymwneud ag arolygiadau rheoliadol o dreialon clinigol.
- Derbyniodd astudiaeth [SPIN-VR](#) farn ffafriol gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ar 29^{ain} Tachwedd 2023. Dysgwch fwy am yr astudiaeth yn yr adran uchafbwyntiau prosiect isod.
- Mae cam un o adnewyddu'r PREMs Craidd Cenedlaethol wedi'i gwblhau gydag ymgysylltiad gwych gan ddefnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr o grwpiau eiriolaeth, a thimau profiad cleifion o bob rhan o Gymru.



Dathlodd tîm CEDAR y Nadolig mewn steil gyda gwledd Nadoligaidd yn Browns Brasserie a ddilynwyd gan gystadleuaeth gyfeillgar yn chwarae gwthfwrdd a dartiau!

UCHAFBWYNTIAU'R PROSIECT

Gwerthusiad o Wasanaethau Clefyd Llid y Coluddyn (IBD)

Mae clefyd llid y coluddyn (IBD), sy'n cynnwys llid briwiol y coluddyn a chlefyd Crohn, yn effeithio ar tua 25,000 o unigolion yng Nghymru ac yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd unigolyn. Ers 2017, mae'r tîm IBD ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno cyfres o fesurau yn raddol i wella'r gofal i gleifion ag IBD. Ymchwiliodd CEDAR, a ariennir gan y Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, i'r effaith y mae'r newidiadau hyn i wasanaethau yn ei chael ar ganlyniadau cleifion. Gwnaeth y gwerthusiad canfod canlyniadau cadarnhaol o ran boddhad cleifion, llai o dderbyniadau brys a llawdriniaethau, a chost yn symud i ffwrdd o dderbyniadau brys a llawdriniaeth tuag at ddefnydd biolegol. Dylai gwerthusiad yn y dyfodol ganolbwyntio ar gael data canlyniadau a phrosesau ystyrlon.

Astudiaeth Ymchwil HELPP

Yn ddiweddar dyfarnwyd cyllid (£195,131) i ni gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) i ymchwilio i ddichonoldeb datblygu llwybrau triniaeth personol i leddfu poen sawdl gan ddefnyddio cynllun astudiaeth hap-dreial dosbarthiad lluosog dilyniannol (SMART). Bydd astudiaeth ddichonoldeb Llwybrau Poen Sawdl (HELPP) yn penderfynu os gall yr Adran Podiatreg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu llwybr triniaeth personol ar gyfer pobl â phoen sawdl. Bydd yr astudiaeth hon yn dweud wrthym a yw symud i SMART ar raddfa lawn yn ymarferol, ac yn dderbyniol i gleifion a staff. Yn amodol ar gyllid pellach, ein nod hirdymor yw datblygu llwybr ymyrraeth addasol gan ddefnyddio dull cyson ledled Cymru. Gallai datblygu llwybrau mwy effeithlon wella canlyniadau a adroddir gan gleifion, lleihau'r defnydd o adnoddau gofal iechyd, ac arbed gwastraff, niwed ac amrywiadau diangen, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

SPIN-VR

Mae osteoarthritis y pen-glin yn her fyd-eang sylweddol, gan effeithio ar weithrediad ac ansawdd bywyd oherwydd poen. Mae ymarfer corff yn seiliedig ar ffisiotherapi yn hanfodol ar gyfer rheoli poen heb ddefnyddio meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd hirdymor lleddfu poen yn dibynnu ar fod yn gyson â'r ymarferion hyn. Mae rheoli poen yn barhaus ar gyfer osteoarthritis yn gofyn am roi sgiliau a chymhelliant i unigolion i barhau ag ymarferion yn annibynnol ar ôl i gefnogaeth glinigol wyneb yn wyneb ddod i ben. Mae [astudiaeth SPIN-VR](#), hap-dreial dichonoldeb rheoledig, yn archwilio'r defnydd o realiti rhithwir nad yw'n ymdrochol i wella cysondeb gwneud ymarferion ffisiotherapi. Mae'r ymyriad hwn yn cynnwys synwryddion a wisgir ar y corff sy'n galluogi unigolyn i chwarae gemau rhithwir sy'n dynwared yr ymarferion ffisiotherapi hyn. Bydd cyfranogwyr yn cael eu neilltuo ar hap i ofal safonol neu'r ymyriad, a nod yr astudiaeth yw asesu dichonoldeb hap-dreial rheoledig mwy a pha mor dderbyniol yw'r ymyriad arloesol hwn.

Arddangosfa Ffrwd Gwaith – Gwerthusiad

Uwch Wyddonydd Gwerthuso, Michael Beddard yn trafod gwaith gwerthuso CEDAR:

Mae ffrwd waith gwerthuso CEDAR yn asesu rhaglenni ac ymyriadau mewn cydweithrediad â'r GIG, llywodraeth leol a phartneriaid yn y trydydd sector, gan archwilio canlyniadau, ffactorau cyd-destunol ac effeithiau. Gan ddefnyddio dulliau cymysg, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan driongli data meintiol ac ansoddol. Mae'r broses yn cynnwys asesiadau economaidd ac amcangyfrif elw cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI). Mae gan CEDAR arbenigedd mewn datblygu modelau rhesymeg ailadroddol, creu fframweithiau gwerthuso, gwerthusiad gwasanaeth, gwerthusiad ffurfiannol, asesiadau cynyddu graddfa, nodi rhwystrau, gwerthusiad proses o ymyriadau cymhleth, a gwerthuso effaith gan ddefnyddio mesurau sydd wedi'u dilysu fel Theori Proses Normaleiddio a'r fframwaith RE-AIM.

SBOTOLAU STAFF

Yn y rhifyn hwn, rydym yn siarad â Samantha Salway, ein gweinyddwr newydd:



Dywedwch ychydig wrthym andanoch chi a'ch rôl:

Rwyf wedi trosglwyddo i CEDAR o'r Adran Ffisiotherapi yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Gweithiais yno am 5 mlynedd fel ysgrifennydd adrannol. Roedd fy rôl yn amrywiol a deuthum i adnabod y rhan fwyaf o'r staff yn y tîm oedd yn cynnwys dros 300 o bobl. Byddai dyletswyddau dyddiol yn amrywio o roi gwybod am doiled sydd wedi torri i archebu gwisg staff.

Pa 3 gair fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio CEDAR?

Ffenestri, cyfeillgar a chroesawgar.

Dywedwch wrthym am rywbeth yr ydych yn arbennig o falch ohono:

Gallu rhoi cilfwâu i fyny ar ôl gwyllo ychydig o fideos ar YouTube.

Dewiswch archbŵer:

Rydw i'n mynd i fod yn farus a dewis 3 - newid siâp, amgyffrediad synhwyrâu ychwanegol a phŵer deuleoli.